**Rhif: 1**

| | |
| --- | --- |
| **Cais Rhif:** | **C22/0047/15/DT** |
| **Dyddiad Cofrestru:** | **24/01/2022** |
| **Math y Cais:** | **Deiliad Ty** |
| **Cymuned:** | **Llanberis** |
| **Ward:** | **Llanberis** |
| **Bwriad:** | **Cais ar gyfer codi to un-codiad canopi yn erbyn blaen yr eiddo** |
| **Lleoliad:** | **2 Stryd Tomas, Llanberis, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4HW** |
| **Crynodeb o'r Argymhelliad:** | **CANIATAU GYDAG AMODAU** |

**1. Disgrifiad:**

1.1 Mae hwn yn gais deiliad tŷ ar gyfer codi to un-codiad canopi yn erbyn blaen yr eiddo. Mae'r eiddo'n dŷ deulawr yng nghanol teras o dai tebyg ar Stryd Thomas ac wedi ei leoli oddi fewn i ffin datblygu pentref Llanberis (fel y diffinnir yn y CDLl).

1.2 Bydd y bwriad yn golygu codi to un-codiad canopi gwydr wedi ei osod ar 6 bostyn (90mm wrth 90mm) pren yn erbyn edrychiad blaen yr eiddo. Mae'r cynlluniau arfaethedig yn nodi bydd y to wedi ei osod ar uchdwr o 2.5m ac yn mesur 4.3m o hyd a 1.4m o led.

1.3 Mae'r ymgeisydd wedi datgan ei bod yn warchodwr plant a buasai'r bwriad hwn yn galluogi i rieni sy'n casglu eu plant mewn tywydd garw, sefyll tu allan i'r eiddo a drwy hynny osgoi cyswllt ffisegol ychwanegol yn ystod y pandemig.

1.4 Cyflwynir y cais i Bwyllgor gan fod yr ymgeisydd bartner i aelod o staff Adran Amgylchedd, Cyngor Gwynedd.

**2. Polisïau Perthnasol:**

2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â’r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a’r Cynllun Datblygu Lleol.

2.2 Mae’r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i ymgymryd â chamau rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r 7 amcan llesiant sydd o fewn y Ddeddf. Mae'r adroddiad hwn wedi’i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu gynaliadwy', fel sydd wedi’i ddatgan yn Neddf 2015. Wrth ffurfio'r argymhelliad mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

2.3 **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026 mabwysiadwyd 31 Gorffennaf 2017**

- PCYFF 2: Meini prawf datblygu
- PCYFF 3: Dylunio a siapio lle

2.4 **Polisïau Cenedlaethol:**

- Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040
- Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 11 - Chwefror 2021)
- Nodyn Cyngor Technegol 12: Dylunio

**3. Hanes Cynllunio Perthnasol:**

3.1 Dim hanes cynllunio perthnasol i'r safle hwn.

**4. Ymgynghoriadau:**

| | |
|---|---|
| Cyngor Cymuned/Tref: | Dim ymateb wedi ei dderbyn. |
| Dŵr Cymru: | Ymateb wedi ei dderbyn ar 26/01/2022: Cyngor ac amodau safonol |
| Ymgynghoriad Cyhoeddus: | Rhoddwyd rhybudd ar y safle a gwybyddwyd trigolion cyfagos drwy lythyr. Ni dderbyniwyd unrhyw ohebiaeth gan aelodau'r cyhoedd ynglŷn â'r bwriad. |

**5. Asesiad o'r ystyriaethau cynllunio perthnasol:**

**Egwyddor y Datblygiad**

5.1 Mae'n ofynnol gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio yn unol â'r cynllun datblygu a fabwysiadwyd, oni bai bod ystyriaethau perthnasol eraill yn nodi fel arall. Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (CDLl) yw'r 'Cynllun Datblygu' mabwysiedig yn yr achos yma. Mae Polisi PCYFF 3 a PCYFF 2 yn caniatáu'r egwyddor o osod strwythurau o fewn cwrtil eiddo sy'n cael i drafod mewn mwy o fanylder isod. Ar y cyfan felly mae'r cais hwn yn gyson gydag egwyddor y Cynllun Datblygu mabwysiedig.

**Mwynderau gweledol**

5.2 Y prif bolisi sy'n ymwneud a'r agwedd hon yw Polisi PCYFF 3 y CDLL sy'n datgan bod disgwyl i bob cynnig arddangos dyluniad o ansawdd uchel sy'n rhoi llawn ystyriaeth i gyd-destun yr amgylchedd adeiledig o gwmpas.

5.3 Er bod y strwythur dan sylw mewn man sydd yn weledol o fannau cyhoeddus, fe fyddai'r cynnig o osod to canopi o ddyluniad syml a maint bychan sy'n adlewyrchu strwythurau ac addasiadau sydd wedi eu gwneud i eiddo preswyl eraill yn yr ardal gyfagos. Yn ychwanegol, nid yw'r bwriad yn golygu gwneud unrhyw newid i strwythur na osodiad gwreiddiol yr eiddo.

5.4 Ar y cyfan, fe gredir bod y dyluniad yn gweddu'n briodol gyda'i leoliad ac na fydd unrhyw newid niweidiol i ymddangosiad yr eiddo na'r strydlun. I'r perwyl hwn, credir bod y cynnig hwn yn cwrdd gyda gofynion polisi PCYFF 3 y CDLl.

**Mwynderau cyffredinol a phreswyl**

5.5 Mae Polisi PCYFF 2 y CDLl yn annog gwrthod cynhigion bydd yn cael effaith andwyol sylweddol ar fwynderau eiddo lleol. Er bod y bwriad yn ffinio a gerddi blaen eiddo eraill, credir bod aflonyddwch a symudiadau yn ymwneud natur defnyddiau preswyl eisoes yn bodoli yma a ni fydd y datblygiad yn arwain at unrhyw waethygiad i'r effeithiau hynny.

5.6 Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad gan y cymdogion yn dilyn gosod rhybudd safle felly yn sgil yr uchod, ni chredir y byddai niwed arwyddocaol ychwanegol i fwynderau cymdogion, na'r ardal yn gyffredinol, yn deillio o'r datblygiad hwn ac felly mae'r cynnig yn dderbyniol dan bolisi PCYFF 2 y CDLl.

**6. Casgliadau:**

6.1 O ystyried yr uchod ac wedi ystyried yr holl faterion cynllunio perthnasol yn llawn gan gynnwys polisïau a chanllawiau lleol a chenedlaethol, credir fod y bwriad yma yn dderbyniol a'i fod yn cydymffurfio a gofynion y polisïau perthnasol fel y nodir uchod.

**7. Argymhelliad:**

7.1 Caniatáu'r cais yn ddarostyngedig i'r amodau isod;

1. Amser
2. Yn unol â'r cynlluniau